



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Darlithydd mewn Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff
Lleoliad:	Campws Cyncoed
Ysgol:	Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd
Oriau:	37 awr yr wythnos
Daliadaeth:	Tymor penodol (31/07/2026)
Gradd:	7AB
Cyflog:	£44,263 - £49,794 per annum
Yn atebol i:	Arweinydd y Tîm Academiaidd

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r cytundeb cyflogaeth.

Crynodeb o'r Rôl:

Mae'r cyfle yn bodoli i ymgeisydd â phrofiad addas gyfrannu at ddarparu seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff a cyfrannu at modiwlau traws-rhaglen o fewn raglenni israddedig yr Ysgol. Yn ogystal, bydd gofyn i unigolion â chymwysterau addas gyfrannu at ddarpariaeth yr MSc Seicoleg Chwaraeon. Bydd hefyd disgwyl i chi ymgymryd â gweithgareddau ymchwil/ysgolheigaidd a goruchwylio ymchwil a lleoliadau myfyrwyr fel y bo'n briodol. Bydd disgwyl i'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â dyletswyddau addysgu a gweinyddol eraill. Disgwylir cyfraniad at weithgareddau arloesi'r Ysgol.



PROFFIL Y RÔL

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r cytundeb cyflogaeth.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Goruchwyllo myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

Cefnogaeth addysgu a dysgu

- Dylunio deunydd addysgu a'i gyflwyno naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn maes pwnc.
- Defnyddio dulliau addysgu, cymorth dysgu ac asesu priodol.
- Goruchwyllo prosiectau myfyrwyr, a/neu e.e. teithiau maes a, lle bo hynny'n briodol, lleoliadau.
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth gyfredol.
- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a datblygu amcanion a deunydd.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a rhoi adborth i fyfyrwyr.

Ymchwil ac ysgolheictod

- Arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesi sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm, rheoli cyflawniadau prosiectau, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil ac arwain y broses o sicrhau arian.
- Rheoli cyflwyno prosiectau ymchwil unigol a / neu gydweithredol yn ôl amser ac o fewn y gyllideb.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesi yn ogystal ag ysgolheictod i ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol. Arwain y gwaith o ddylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid a/neu allbynnau ymarferwyr, a/neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academiaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.

Cyfathrebu

- Cyfleu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd.

Cyswllt a rhwydweithio

- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol a'u helpu i ddatblygu er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu ac ymchwil.

Rheoli pobl

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad a chynghor ar ddatblygiad personol.
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gellid disgwyl goruchwyllo gwaith eraill.

Gwaith tîm

- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunir, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.
- Cydweithio â chydweithwyr i nodi ac ymateb i anghenion myfyrwyr.

Gofal bugeiliol

- Gellid disgwyl iddo weithredu fel arweinydd modiwl.
- Fod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn ardal benodol.
- Delio â phroblemau safonol a helpu cydweithwyr i ddatrys eu pryderon ynghylch cynnydd mewn ymchwil.

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil.
- Nodi'r angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a gwneud cynigion ar sut y dylid cyflawni hyn.
- Datblygu syniadau sy'n hyrwyddo'r pwnc a/neu feysydd ymchwil.
 - e.e. Datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd o ledaenu a chymhwyso'r canlyniadau ymchwil ac ysgolheictod
 - e.e. Cyfrifoldeb am ddylunio a darparu modiwlau a dulliau asesu eich hun.
 - e.e. Cydweithio â chydweithwyr ar weithredu dulliau asesu.
 - e.e. Cynghori eraill ar faterion strategol fel recriwtio myfyrwyr a marchnata.
 - e.e. Cyfrannu at achredu cyrsiau a phrosesau rheoli ansawdd

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Fel arweinydd modiwlau neu diwtor, cydlynw ag eraill (fel staff cymorth neu gydweithwyr academiaidd) i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn cael eu diwallu.
- Rheoli prosiectau sy'n ymwneud â'ch maes gwaith eich hun.
- Cymryd rhan mewn datblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm.

Gofynion synhwyrdd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwysu pwysau gofynion addysgu a gweinyddol a therfynau amser cystadleuol.

Amgylchedd gwaith

- Yng nghyd-destun polisi iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar faes gwaith a lefel yr hyfforddiant a dderbynnir, gellir disgwyl iddynt gynnal asesiad risg a chymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eraill.

Arbenigedd

- Meddu ar ddigon o ehangder neu ddyfnder o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddio ystod o dechnegau cyflwyno.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn glynu wrth ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



MANYLEB Y PERSON

Teitl y Swydd: Darlithydd mewn Seicoleg Chwaraeon
ac Ymarfer Corff

Ysgol/Uned: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd
Caerdydd

* Allwedd

Ff - Ffurflen gais

C - Cyfweiliad

P - Prawf

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	EU HASESU GAN		
		Ff*	C *	P*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd da gyda dyfarniad o 2.1 neu'n uwch mewn gwyddorau chwaraeon, seicoleg chwaraeon neu ddisgyblaeth â chysylltiad agos. Cymhwyster lefel doethuriaeth a enillwyd. Y gallu i ennill Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o 3 blynedd.	✓ ✓ ✓	 ✓	
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch. Aelodaeth siartredig o Is-adran Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer BPS neu'r potensial i ennill aelodaeth.	✓ ✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Cefndir profedig mewn seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Dealltwriaeth gadarn o addysgeg. Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd.	✓ ✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓	✓ ✓
Gwybodaeth (dymunol)				
Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â Rôl	Y gallu i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu. Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu.	✓ 	✓ 	✓

Profiad a Dalwyd / Di-dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu ac ymchwil mewn Addysg Uwch. Profiad o amgylcheddau seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff cymhwysol.	✓		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd.	✓	✓	
Gofynion eraill (dymunol)	Tystiolaeth o gynnal ymchwil o ansawdd uchel y gellir ei dychwelyd gan REF.	✓	✓	
Sgiliau Iaith Gymraeg Dymunol	<u>Gwranddo, Darllen, Siarad, Ysgrifennu</u> A1 - Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	✓		